# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodorgan
## Nos Fawrth, 21ain o Fawrth , 2017

| Presennol: G. Looms (c), A M Hughes, D G Jones, G. Evans, S Williams, W Griffiths, Cyng P Rogerts, Rh. Khardani | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | | **Gweithredu** |
| 1. | **Ymddiheuriadau:** Myfyr Davies, G O Davies, Jeff Hughes, Cyng. A. Griffiths | |
| 2. | **Datgan diddordeb** – DGJ – Aelod o Banel 14, Cyfrifoldeb am yr anfoneb sydd wedi rhoi gerbron y Cyngor I'w thalu am logi'r Neuadd I gyfarfodydd y Cyngor.<br>AMH – aelod o Aberffraw 2012.<br>G. Looms – llythur gan Clwb Ffermwyr Ifanc Môn. | |
| 3. | **Cofnodion Cyfarfod mis Mawrth 2017 – cymeradwyo / materion yn codi.**<br>Fflatiau Bethel - mae'r problemau dal I fynd ymlaen ar y safle, ategodd Cyng. P Rogers fod y sefyllfa yn arswydus fel ag y mai. Mae'r Heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa ac o deimladau pobl sydd yn byw cyfagos I'r fflatiau.<br><br>Llythyr DGJ wedi ei gydnabod gan Kirsty Williams, Llywodraeth Cymru .<br><br>Plot Llyr Davies – talu uniongyrchol – nid yw Llyr byth heb lenwi / cadarnahu ei fod wedi cwblhau'r ffurflenni mae'r clerc wedi anfon ato, clerc I ail anfon y ffurflenni a llythur er mwyn iddo gydnabod ei fod yn ymwybodol o'r cytundeb I dalu'r rhent drwy bank, os nad yw yn fodlon I wneud hyn bydd yn torri ei gytundeb ac bydd rhaid cymyd camau pellach os nad yw'r Cyngor wedi derbyn cadarnhad o hyn.<br><br>Llwybr Troed Bethel – mae'r darn o dir wedi ei brynu ond nid oes arian I gario'r gwaith allan.<br><br>Lon ger Tan Lan – gwaith patchio'r lon wedi ei wneud ond yn dilyn hyn mae'r lon dan yn anghyson.<br><br>Plot 9 – GE – cywirdeb, clerc I gysylltu a Stad Bodorgan. | <br><br><br><br><br><br>RK<br><br><br><br>PR i edrych mewn.<br><br><br>RK |

| | | |
|---|---|---|
| | Carafan Malltraeth – Mae Swyddogion o'r Cyngor Sir am wneud ymweliad safle.<br><br>Code of Conduct – derbyniwyd y Code of Conduct yn cyfarfod mis Ionawr, 2017.<br><br>VAT – angen checio os oes vat ar y biliau Dwr.<br><br>Derbyniwyd y cofnodion yn gywir gan SW gyda AMH yn eilio. | RK |
| 4 | **Taliadau / Payments** Cyflog y Clerc £260 (dau fis) treuliau'r clerc £43,Aelodaeth / Membership Un Llais Cymru £139.00, Ffi llogi'r Neuadd i'r CC £98.00<br>**Derbyniadau / Receipts** R Hughes a'I Fab £480 (diweddar Elizabeth Griffith), R Hughes a'I Fab £90 (gosod carreg fedd fflat Ann Lopez). | |
| 5 | **Gohebaeth oddiwrth Cyngor Sir Ynys Môn: er gwybodaeth**<br>Blaenraglen y Pwyllgor Gwaith / Executive's forward work programme 02/17 – 10/17<br>Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-22<br>Nodyn Briffio I Gynghorwyr Tref a Chymuned yn Ynys Môn, Caniatad Arbennig<br>Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol 200 – fe'I cymeradwywyd a'I dderbyn yn cyfarfod mis Ionawr. | |
| 6 | **Gohebiaeth Asiantaethau Allanol** – er gwybodaeth<br>Ambiwlans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance – cytunwyd I roi £100 fel rhodd<br>Eich Ardal Chi, Beth sy'n bwysig / Its our area, what's important Partneriaeth Gwynedd & Mon Partnership,<br>Clwb Ffermwyr Ifanc Môn – codi arian, fundraising – cytunwyd I brynu bricsen £25.<br>Ymateb I ymgynghoriad Y Grid – Response to the National Grid Pilons<br>Taith dros fywyd / Walk For Life – 2017<br>The 2018 Review of Parliamentary constituencies in Wales | |
| 7 | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Cais gan Aberffraw 2012 gosod paneli / planning application – Chris Bowler – gadawodd AMH a DGJ yr ystafell pan yn trafod y cais yma oherwydd ei bod ar fwrdd Aberffraw 2012. Dim gwrthwynebiad ond rhaid bod ar ddu | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwyn mai'r Aberffraw 2012 fydd yn cynnal a chadw'r byrddau yn y dyfodo ac yn ei yswirio os bydd rhaid.<br><br>Apêl / Appeal letter 15C164C, tir / land Trefle, Malltraeth – dim sylw | |
| 8. | **Penderfyniadau Cynllunio** – er gwybodaeth.<br>15C215C – Caniatawyd / Granted – Tyddyn Bwrtais, Llangadwaladr<br>15C221A – Caniatawyd / Granted – The Brackens Heath, Malltraeth | |
| 9 | **Adborth gan y Cynghorydd Sir**<br>Cyllid Addysg – mae'r broblem o gyllid Addysg yn bodoli ar draws Cymru, Cyng. P Rogers wedi mynychu cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Llangefni ac mae'r sefyllfa yn un ddyrus ac bydd cwtogi staff yn yr ysgol. Mae torriadau ar draws y swyddi ym mhob ysgol yn y Sir.<br><br>Tegfryn Garage – bydd y perchenog yn derbyn llythur gan y Local Planning Enforcement Team, nid yw'r llythyr wedi anfon eto.<br><br>Gwastraff – mae 'fly tipping' yn broblem ar hyd yr Ynys. Mae Cwmni Kingdom UK wedi cael contract 12 mis o dreial I geisio datrys y broblem sbwriel, bydd y cwmni yn ffeinio pobl gaiff ei darganfod yn torri'r gyfraith. Mae llwyddiant ar hyd yr Ynys yn dilyn rhannu'r trollau bocses sbwriel ac mae'r canran ail gylchu wedi codi'n helaeth ar yr Ynys. | |
| 10 | **Wefan Cyngor Cymuned Bodorgan**<br>Bydd y Wefan yn dod yn fyw yn dilyn yr Etholiad Mis Mai, 2017. | |
| 11. | **Unrhyw Fater Arall**<br>Canolfan Bodorgan (DGJ) ni fydd dod ar ofyn y Cyngor Cymuned am Gymorth arian flwyddyn nesaf, mae'r cyllid yn edrych yn iach iawn ar hyn o bryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ffilm – erbyn hyn mae Ysgol Bodorgan, Henblas, Llangaffo , Niwbwrch a Dwyran wedi cwblhau cynhyrchu'r ffilm, bydd y ffilm yn cael ei dangos I bobl y Gymuned. Mae safon y ffilm yn wych, bydd yn cael ei arddangos ar sgrin projector.**<br><br>Cynghorydd Ann Griffiths – **wedi anfon neges I AMH parthed nad fydd yn sefyll yn yr etholiadau mis Mai fel Cynghorydd Sir, roedd eisiau diolch I'r Cyngor am eu cyd weithio ac yn dymuno yn dda I'r Cyngor I'r Dyfodol.** | |
| 11 | **Dyddiad Cyfarfod Nesaf:** 16 o Fai, 2017 am 7yh | |